[dyddiad]

Annwyl

**Dyfarnu cyllid mewn perthynas â'r Her Môr-lynnoedd Llanw**

## 1. Dyfarnu Cyllid

(a) Mae'n bleser gennym eich hysbysu bod eich Cais wedi bod yn llwyddiannus a bod cyllid o hyd at [£ swm] (y "**Cyllid**") yn cael ei ddyfarnu i chi at y Dibenion (fel y'u diffinnir yn Amod 4(a)).

(b) Mae'r Cyllid yn ymwneud â'r cyfnod 1 Ebrill 2024 hyd 31 Mawrth 2026 a rhaid ei hawlio bob chwarter yn llawn yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Proffil Talu Dangosol. Os byddwch yn methu â hawlio'r Cyllid yn flynyddol yn llawn yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Proffil Talu Dangosol, ni fydd unrhyw ran o'r Cyllid blynyddol sydd heb ei hawlio ar gael i chi mwyach.

(c) Bydd y llythyr hwn yn dod yn weithredol ar y dyddiad llofnodi a fydd yn dystiolaeth eich bod yn ei dderbyn fel y nodir yn y dudalen dderbyn isod.

(d) Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r dyfarniad Cyllid hwn neu'r Amodau, cysylltwch â'r Swyddog yn Llywodraeth Cymru a fydd yn hapus i'ch cynorthwyo.

## 2. Awdurdod statudol a Rheoli Cymhorthdal

(a) Mae'r dyfarniad hwn o Gyllid yn cael ei wneud ar yr Amodau ac yn ddarostyngedig iddynt ac o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru, yn gweithredu yn unol â swyddogaethau a drosglwyddwyd o dan adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(b) Mae'n rhaid i chi sicrhau bod y defnydd a wneir o'r Cyllid yn gydnaws â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 a'r cytundebau cymwys sydd wedi'u cynnwys yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd,

Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE ac unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU a Phrotocol Gogledd Iwerddon. Gweler Atodlen 8 am ragor o wybodaeth.

## 3. Dehongli'r Amodau

Mae unrhyw gyfeiriad yn yr Amodau at:

**'Cyfrif'** yn cyfeirio at y cyfrif banc a agorir ac a gynhelir gennych chi gydag un o fanciau clirio'r DU, yn eich enw eich hun a chi yn unig sydd â hawliau arwyddo iddo neu gyfrif arall y gallwn ei gymeradwyo at ddibenion yr Amodau ac yn ôl ein disgresiwn o bryd i'w gilydd;

**'Cais'** yn cyfeirio at eich cais dyddiedig [ ] cyfeirnod [ ], gan gynnwys eich Cynllun Rheoli Data Amlinellol;

['**Datganiad Sicrwydd'** yn cyfeirio at y Datganiad Sicrwydd: gwrth-dwyll a llywodraethu a gynhwysir yn Atodlen 6;]

**'Diwrnod Busnes'** yn cyfeirio at ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ŵyl banc yng Nghymru o dan y Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971;

**'Amodau**' yn cyfeirio at y telerau a'r amodau a nodir yn y llythyr hwn a'r Atodlenni;

**'Costau yr Eir Iddynt**' yn cyfeirio at gost nwyddau a/neu wasanaethau yr ydych wedi eu derbyn p'un a ydych wedi talu amdanynt ai peidio erbyn dyddiad eich hawliad;

'**Costau yr Aed Iddynt ac a Dalwyd**' yn cyfeirio at gost a anfonebwyd nwyddau a/neu wasanaethau rydych wedi'u derbyn ac y talwyd amdanynt gennych gydag arian sydd wedi'i glirio erbyn dyddiad eich cais;

'**Digwyddiad Hysbysu**' yn cyfeirio at unrhyw un o'r digwyddiadau a restrir yn Atodlen 3;

'**Proffil Talu Dangosol**' yn cyfeirio at y proffil talu dangosol a nodir yn Atodlen 4;

**'Cynllun Rheoli Data Amlinellol'** yn cyfeirio at y cynllun rheoli data sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'ch Cais, i gynnwys eich cynigion ar sut y caiff y data a'r ymchwil i'w cynnal eu rheoli a'u gwneud ar gael i'r cyhoedd (fel y gellir eu diwygio yn unol ag Amod 13(e));

Mae **'Personél**' yn cyfeirio at eich rheolwyr/cyflogeion a chyflenwyr neu unrhyw unigolyn arall a benodir gennych neu a gyflogir gennych mewn perthynas â'r Dibenion;

**'Rheolwr Prosiect**' yn cyfeirio at eich rheolwr prosiect sy'n gyfrifol am reoli'r dyfarniad Cyllid hwn o ddydd i ddydd:

[ cyfeiriad ]
[ ]
[ ]
[ ]
[ ]
Ffôn:

Cyfeiriad e-bost:[ ]@[ ]

**'Ymchwil'** yn cyfeirio at unrhyw ymchwil a gynhyrchir mewn perthynas â'r Dibenion hyn;

'**Atodlen'** yn cyfeirio at yr atodlenni sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn;

**'ni'**, **'ein'** yn cyfeirio at Weinidogion Cymru;

**'Swyddog Llywodraeth Cymru**' yn cyfeirio at

[ cyfeiriad ]
[ ]
[ ]
[ ]
[ ]
Ffôn:

E-bost:[ ]@llyw.cymru

neu unrhyw swyddog arall o Lywodraeth Cymru y gallwn eich hysbysu ohono;

**'chi', 'eich'** yn cyfeirio at [enw, cyfeiriad cofrestredig a rhif cofrestru'r cwmni/rhif elusen/rhif cymdeithas gydfuddiannol derbynnydd y grant os yw'n berthnasol];

**bydd unrhyw gyfeiriad at unrhyw ddeddfwriaeth**, p'un a yw'n gyfraith ddomestig neu ryngwladol, yn cynnwys yr holl ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth honno ac amnewidiadau ac ailddeddfiadau ar ei chyfer sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

## 4. Defnydd o'r Cyllid

(a) Rhaid i chi ddefnyddio'r Cyllid at y dibenion a nodir yn Atodlen 1 yn unig (y **"Dibenion**")

(b) Rhaid i chi gyflawni'r targedau a'r canlyniadau a nodir yn Atodlen 2 (y "**Targedau**").

(c) Bydd angen cael ein cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer unrhyw newid i'r Proffil Talu Dangosol, y Dibenion neu'r Targedau cyn gweithredu

unrhyw newid. Nodwch nad oes rheidrwydd arnom i roi cydsyniad ond y byddwn yn ystyried pob cais ysgrifenedig rhesymol.

(d) Rhaid i chi beidio â defnyddio unrhyw ran o'r Cyllid ar gyfer unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri arnom, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i (1) dibenion pleidiau gwleidyddol, (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol; (3) gamblo, (4) pornograffi, (5) cynnig gwasanaethau rhywiol, neu (6) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon.

(e) Rhaid i chi beidio â defnyddio unrhyw ran o'r Cyllid at ddibenion: (1) prynu offer cyfalaf (ac eithrio fel y pennir yn y Dibenion), (2) eich ffioedd cyfreithiol mewn perthynas â'r llythyr hwn, (3) Costau yr Eir Iddynt neu Gostau yr Aed Iddynt ac a Dalwyd gennych wrth gyflawni'r Dibenion cyn y cyfnod y cyfeirir ato yn Amod 1(b).

## 5. Rhagamodau Cyllido

(a) Ni fyddwn yn talu unrhyw Gyllid i chi nes eich bod wedi rhoi'r wybodaeth a'r ddogfennaeth ganlynol i ni:

i) y llythyr hwn wedi'i lofnodi gennych chi;
ii) tystiolaeth ddogfennol eich bod wedi rhoi'r holl staff ac adnoddau eraill y manylir arnynt yn y Cais ar waith fel sy'n ofynnol er mwyn cychwyn a chwblhau'r Dibenion;
iii) y Datganiad Sicrwydd wedi'i gwblhau;
iv) Cynllun Rheoli Data Amlinellol wedi'i gwblhau; ac
v) unrhyw wybodaeth, dogfen, barn neu sicrwydd arall yr ydym yn ystyried ei fod neu ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol (os ydym wedi eich hysbysu i'r perwyl hynny) mewn cysylltiad â'r dyfarniad hwn o Gyllid neu'r Dibenion neu mewn cysylltiad â gwneud y dyfarniad hwn o Gyllid a'i gyflawni neu ei ddilysrwydd a'i allu i gael ei orfodi.

(b) Pan fydd yn ofynnol i chi roi gwybodaeth a/neu ddogfennaeth i ni fel tystiolaeth eich bod wedi bodloni rhagamod penodol, Amod neu fel arall i gefnogi hawliad, rhaid i'r wybodaeth a/neu'r ddogfennaeth fod yn dderbyniol i ni o ran ffurf a sylwedd. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw wybodaeth a dogfennaeth nad yw am unrhyw reswm yn dderbyniol i ni, a/neu ofyn am unrhyw wybodaeth a/neu ddogfennaeth bellach neu ychwanegol i gefnogi'r cais am Gyllid.

## 6. Sut i hawlio'r Cyllid

(a) Gallwch hawlio'r Cyllid bob chwarter yn ôl-ddyledus fel y nodir yn y Proffil Talu Dangosol.

(b) Mae'n rhaid i chi hawlio'r Cyllid yn unol â'r dyddiadau a nodir yn y Proffil Talu Dangosol. Rhaid i chi hawlio'r Cyllid yn brydlon. Rydym

yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl unrhyw ran o'r Cyllid nad ydych yn ei hawlio'n brydlon.

(c) Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich hawliadau am daliadau’r Cyllid i Swyddog Llywodraeth Cymru.

(d) Rhaid i chi ddefnyddio ein ffurflen hawlio pro forma (sydd ar gael gan Swyddog Llywodraeth Cymru) ac atodi'r wybodaeth a'r ddogfennaeth a nodir yn y Proffil Talu Dangosol ynghyd â’r canlynol: tystiolaeth ar ffurf a sylwedd sy’n ein bodloni bod gennych systemau priodol ar waith i sicrhau yr ymgymerir â diwydrwydd dyladwy parhaus mewn perthynas ag unrhyw ran o’r Cyllid a ddefnyddir gennych i ddarparu grant a/neu i gaffael unrhyw nwyddau neu unrhyw wasanaethau gan drydydd parti;

(e) Mae'n rhaid i chi roi unrhyw wybodaeth, dogfen, barn neu sicrwydd arall yr ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol (os ydym wedi eich hysbysu i’r perwyl hynny) mewn cysylltiad â'ch cais am y Cyllid.

(g) Byddwn yn ceisio talu'r holl hawliadau dilys cyn gynted â phosibl ac fel arfer o fewn 20 Diwrnod Busnes ar ôl derbyn hawliad dilys yn unol â darpariaethau'r llythyr hwn, ac ar yr amod bob amser bod y rhagamodau Cyllid a nodir yn Amod 5 uchod wedi'u bodloni ac ar ddyddiad yr hawliad a'r dyddiad y mae'r Cyllid i'w dalu i chi:

i) bod y datganiadau a wneir yn Amod 8 isod yn wir ac yn gywir a byddant yn wir ac yn gywir yn syth ar ôl i'r Cyllid perthnasol gael ei dalu i chi; ac
ii) nad oes unrhyw Ddigwyddiad Hysbysu yn parhau neu a allai ddeillio o'r Cyllid arfaethedig.

(h) Bydd unrhyw daliadau o'r Cyllid yn cael eu gwneud i'r Cyfrif ac ni fyddant yn cael eu talu i unrhyw gyfrif banc arall.

## 7. Eich rhwymedigaethau cyffredinol i ni

Rhaid i chi:

(a) ddiogelu'r Cyllid yn erbyn twyll yn gyffredinol ac, yn arbennig, twyll ar ran eich Personél a'n hysbysu ar unwaith os oes gennych reswm i amau bod unrhyw dwyll o fewn eich sefydliad wedi digwydd neu yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd p'un a yw'n ymwneud â'r Cyllid ai peidio. Mae'n rhaid i chi hefyd gymryd rhan mewn unrhyw fentrau atal twyll fel sy’n ofynnol gennym o bryd i'w gilydd;

(b) cynnal gweithdrefnau priodol ar gyfer ymdrin ag unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r Cyllid boed hwnnw’n wrthdaro gwirioneddol, posibl neu ymddangosiadol;

(c) cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, rheoliadau neu gyfarwyddebau swyddogol domestig neu ryngwladol;

(d) cynnal yswiriant digonol i ddiogelu rhag y risgiau a all godi mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo neu unrhyw weithgaredd a wneir wrth gyflawni'r Dibenion. Rydym yn cadw'r hawl i'w gwneud yn ofynnol i chi ddarparu prawf o'ch yswiriant;

(e) cynnal systemau ariannol, risg a rheolaeth priodol wrth ddefnyddio unrhyw ran o'r Cyllid at unrhyw ddiben;

(f) cynnal systemau ariannol, risg a diwydrwydd dyladwy priodol wrth ddefnyddio unrhyw ran o’r Cyllid i ddarparu grant a/neu i gaffael unrhyw nwyddau neu unrhyw wasanaethau gan drydydd parti;

(g) cydweithredu'n llawn â Swyddog Llywodraeth Cymru ac unrhyw gyflogai arall o Lywodraeth Cymru neu'r ymgynghorydd a benodir gennym i fonitro eich defnydd o'r Cyllid a'ch cydymffurfedd â'r Amodau;

(h) rhoi gwybod i ni ar unwaith os yw unrhyw un o'r datganiadau a wneir yn Amod 8 yn anghywir mewn unrhyw agwedd neu, pe bai'n cael ei ailadrodd ar unrhyw adeg gan gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau sy'n bodoli bryd hynny, y byddai'n anghywir;

(i) rhoi gwybod i ni am unrhyw gyllid a gewch o unrhyw ffynhonnell a gaiff ei gaffael neu ei ddefnyddio ar y cyd â'r Cyllid i gefnogi'r Dibenion yn uniongyrchol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'ch darparwr yswiriant (yswiriant canslo busnes/tarfu ar y busnes), Cynllun Cadw Swyddi trwy Gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU a/neu unrhyw gronfa/cynllun Llywodraeth Cymru ac unrhyw gyllidwyr eraill. Bwriad yr Amod hwn yw osgoi unrhyw ddyblygu cyllid mewn perthynas â'r Dibenion.

**8. Datganiadau**

Yr ydych yn datgan:

(a) bod gennych y pŵer i ymgymryd â'r Rhwymedigaethau a nodir yn yr Amodau a’u cyflawni a’ch bod wedi cymryd pob cam angenrheidiol i awdurdodi ymgymryd â'r rhwymedigaethau a'u cyflawni o dan yr Amodau;

(b) na ragorir ar unrhyw gyfyngiad ar eich pwerau o ganlyniad i hawlio'r Cyllid, nac o ganlyniad i roi sicrwydd a ystyrir gan yr Amodau;

(c) nad yw, ac na fydd, ymgymryd ag unrhyw un o'r trafodion a ystyrir gan y llythyr hwn a'u cyflawni yn mynd yn groes i’r canlynol neu’n gwrthdaro â’r canlynol:

i) eich dogfennau cyfansoddiadol;

ii) unrhyw gytundeb neu offeryn sy’n eich rhwymo chi neu’ch asedau neu sy’n gyfystyr â digwyddiad diffygdalu neu derfynu (sut bynnag y caiff ei ddisgrifio) o dan unrhyw gytundeb neu offeryn o’r fath; neu
iii) unrhyw gyfraith neu reoliad neu orchymyn barnwrol neu swyddogol, sy'n gymwys i chi;

(d) nad oes unrhyw Ddigwyddiad Hysbysu yn parhau neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo ddeillio o ddarparu'r Cyllid ac nad oes unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiad arall yn parhau sy'n gyfystyr (neu, gyda therfyn cyfnod gras, rhoi hysbysiad, gwneud unrhyw benderfyniad neu unrhyw gyfuniad ohonynt, yn gyfystyr) â digwyddiad diffygdalu neu derfynu (sut bynnag y caiff ei ddisgrifio) o dan unrhyw gytundeb neu offeryn arall sy'n eich rhwymo neu y mae unrhyw un neu ragor o'ch asedau'n ddarostyngedig iddo;

(e) nad oes unrhyw ymgyfreitha na chyflafareddu nac achos gweinyddol yn gyfredol nac yn yr arfaeth na, hyd y gwyddoch, yn cael ei fygwth, sydd wedi cael, neu a allai gael, effaith andwyol ar eich gallu i gyflawni a chydymffurfio ag unrhyw un o’r Amodau;

(f) eich bod wedi datgelu i ni yr holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol y mae angen eu datgelu er mwyn ein galluogi i gael darlun gwir a chywir o'ch busnes a'ch gweithgarwch (cyfredol ac arfaethedig) neu y dylid eu darparu i unrhyw berson sy'n ystyried darparu cyllid i chi;

(g) bod unrhyw wybodaeth, ar ffurf ysgrifenedig neu electronig, a ddarparwyd gennych chi i ni mewn cysylltiad â'r Cyllid, ar yr adeg y’i darparwyd neu ar y dyddiad y nodwyd ei bod wedi’i darparu (yn ôl y digwydd):

i) yn achos gwybodaeth ffeithiol, yn gyflawn, yn wir ac yn gywir ym mhob agwedd berthnasol;
ii) yn achos amcanestyniad neu ragamcan ariannol, wedi'i pharatoi ar sail gwybodaeth hanesyddol ddiweddar ac ar sail tybiaethau rhesymol ac ar ôl ystyriaeth ofalus;
iii) yn achos barn neu fwriad, wedi’i gwneud neu wedi’i wneud ar ôl ystyriaeth ofalus ac yn deg ac wedi'i gwneud neu wedi’i wneud ar sail resymol; ac
iv) nad yw gwybodaeth o’r fath yn gamarweiniol mewn unrhyw agwedd berthnasol, nac yn cael ei gwneud yn gamarweiniol trwy fethiant i ddatgelu gwybodaeth arall,

ac eithrio i'r graddau y cafodd ei diwygio, ei disodli neu ei diweddaru gan wybodaeth fwy diweddar a ddarparwyd gennych chi i ni.

(h) eich bod wedi trafod y targedau a chytuno arnynt gyda ni a'ch bod yn hyderus eu bod yn realistig ac yn gyraeddadwy;

(i) nad oes gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r Cyllid, boed yn wrthdaro gwirioneddol, posibl neu ymddangosiadol;

(j) na fydd derbyn y dyfarniad hwn o Gyllid yn arwain at gyllid dyblyg mewn perthynas â'r gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r Dibenion. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, unrhyw daliadau a dderbyniwyd gennych mewn perthynas ag effeithiau lledaeniad y Coronafeirws (COVID-19) gan eich darparwr yswiriant (yswiriant canslo busnes/tarfu ar fusnes), Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU a/neu unrhyw gronfa/cynllun gan Lywodraeth Cymru ac unrhyw gyllidwyr.

(k) Bernir eich bod yn ailadrodd y datganiadau yn yr Amod 8 hwn ar:

i) bob dyddiad yr ydych yn cyflwyno hawliad am daliad o Gyllid yn unol â'r Amodau; a
ii) pob dyddiad y gallai fod gennych unrhyw atebolrwydd i ni o dan yr Amodau neu'r dyfarniad Cyllid neu mewn perthynas â hwy,

ac ym mhob achos drwy gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau sy'n bodoli ar bob dyddiad o'r fath.

(l) bod yr wybodaeth a gynhwysir yn y Datganiad Sicrwydd yn gyflawn, yn wir ac yn gywir.

**9. Digwyddiadau Hysbysu a'u canlyniadau**

(a) Mae'n rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith os oes Digwyddiad Hysbysu wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd ond rydym hefyd yn cadw'r hawl i roi gwybod i chi pan fyddwn yn credu bod Digwyddiad Hysbysu wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

(b) Byddwn naill ai:

i) yn rhoi gwybod i chi ein bod ni, yn ôl ein disgresiwn absoliwt, yn ystyried nad oes modd unioni'r Digwyddiad Hysbysu; neu
ii) os ystyriwn, yn ôl ein disgresiwn absoliwt, bod modd unioni'r Digwyddiad Hysbysu, yn ceisio trafod y Digwyddiad Hysbysu gyda chi gyda'r bwriad o gytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysu.

(c) Bydd gennym yr hawl i gymryd unrhyw un neu ragor o'r camau a restrir yn Amod 9(d):

i) os nad ydym, er gwaethaf ein hymdrechion, yn gallu trafod y Digwyddiad Hysbysu gyda chi; neu
ii) os byddwn yn eich hysbysu nad oes modd unioni'r Digwyddiad Hysbysu; neu

iii) os na chytunir ar gamau i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysu a/neu i unioni'r Digwyddiad Hysbysu gyda chi; neu
iv) os cytunir ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysu gyda chi ond nad ydych yn eu dilyn, neu os na fodlonir unrhyw amodau sydd ynghlwm wrthynt (gan gynnwys heb gyfyngiad yr amserlen ar gyfer cymryd y camau gweithredu hynny) i'n boddhad; neu
v) os nad yw'r camau gweithredu yn unioni'r Digwyddiad Hysbysu i'n boddhad.

(d) Os bydd unrhyw rai o'r amgylchiadau a nodir yn Amod 9(c) yn digwydd gallwn, yn ôl ein disgresiwn absoliwt, drwy hysbysiad:

i) tynnu'r dyfarniad Cyllid yn ôl; a/neu
ii) ei gwneud yn ofynnol i chi ad-dalu'r Cyllid i gyd neu ran ohono; a/neu
iii) atal dros dro neu derfynu pob taliad pellach o'r Cyllid; a/neu
iv) gwneud pob taliad pellach o Gyllid yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ag y byddwn yn eu pennu; a/neu
v) didynnu'r holl symiau sy'n ddyledus i ni o dan yr Amodau o unrhyw gyllid arall yr ydym wedi'i ddyfarnu neu y gallwn ei ddyfarnu i chi; a/neu
vi) arfer unrhyw hawliau eraill yn eich erbyn a allai fod gennym mewn perthynas â'r Cyllid.

(e) Mae'n rhaid i bob ad-daliad Cyllid gael ei wneud i ni o fewn 20 diwrnod busnes o ddyddiad ein cais.

**10. Gofynion monitro**

Rhaid i chi:

(a) darparu i ni'r cyfryw ddogfennau, gwybodaeth ac adroddiadau y gallwn ofyn amdanynt yn rhesymol o bryd i'w gilydd, er mwyn i ni fonitro eich cydymffurfiaeth â'r Amodau, gan gynnwys:
i) Adroddiadau cynnydd yn erbyn amserlen eich prosiect
ii) Adroddiadau gwariant interim; a
iii) Canlyniadau'r prosiect

(b) cyfarfod â Swyddog Llywodraeth Cymru ac unrhyw rai eraill o'n cynrychiolwyr fel sy'n rhesymol i ni ofyn i chi ei wneud o bryd i'w gilydd;

(c) sicrhau bod y Rheolwr Prosiect (neu'r cyfryw berson arall ag y byddwn yn cytuno arno), ynghyd ag unrhyw berson arall y byddwn yn gofyn iddo wneud, yn dod i bob cyfarfod gyda Swyddog Llywodraeth Cymru.

**11. Gofynion Archwilio**

(a) Rhaid i chi:

i) cynnal a chadw cofnodion cyfrifyddu cyflawn, cywir a dilys yn nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r Dibenion;

ii) yn ddi-dâl, ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Lywodraeth Cymru, Archwilio Cymru neu unrhyw gorff gorfodi cymorthdaliadau'r DU ar unrhyw adeg resymol o roi cyfnod rhesymol o rybudd i chi (o dan amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol i chi) ymweld â'ch safle a/neu i archwilio unrhyw un neu ragor o'ch gweithgareddau a/neu i archwilio a chymryd copïau o'ch llyfrau cyfrifon a dogfennau neu gofnodion o'r fath ym mha bynnag ffurf y cânt eu storio sydd, yn ôl barn resymol y cyfryw swyddog perthnasol, yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â'ch defnydd o'r Cyllid. Nid yw'r ymgymeriad hwn yn lleihau dim ar effaith unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw gorff gorfodi cymorthdaliadau'r DU neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant i unrhyw un o'r uchod;

iii) cadw'r llythyr hwn a'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r Cyllid am ddeng mlynedd o ddyddiad taliad olaf y Cyllid;

iv) rhoi tystysgrif archwilio i ni yn unol â'r gofynion a nodir yn Atodlen 5

(b) O dan baragraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad eang i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud ag arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae ganddo ef a'i swyddogion y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol sy'n rheoli neu'n dal dogfennau roi pa bynnag gymorth, gwybodaeth ac esboniadau y sydd eu hangen arnynt; ac i'w gwneud yn ofynnol i'r personau hynny fod yn bresennol ger eu bron at ddiben o'r fath. Gall yr Archwilydd Cyffredinol a'u staff arfer yr hawl hon ar bob adeg resymol.

## 12. Rhwymedigaethau trydydd parti

(a) Yn amodol ar ddarpariaethau Amod [ ], nid oes unrhyw beth yn yr Amodau sy'n gosod unrhyw rwymedigaeth arnom ni mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth sydd gennych i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, heb gyfyngiad, eich cyflogeion a'ch contractwyr).

(b) Rhaid i chi ein hindemnio ni rhag unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, achosion, galwadau, colledion, costau a threuliau a ddioddefir neu yr eir iddynt gennym yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw

fethiant gennych chi i gyflawni'n llawn neu'n rhannol unrhyw rwymedigaeth sydd gennych i drydydd parti o bryd i'w gilydd.

## 13. Hawliau eiddo deallusol a chyhoeddusrwydd

(a) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Amodau 13(e)-(i) sy'n ymdrin â sut y bydd deunyddiau sy'n deillio o'r gwaith a wneir mewn perthynas â'r Dibenion (i) ar gael i'r cyhoedd a (ii) ar gael i'w defnyddio gennym ni, nid oes unrhyw beth yn yr Amodau yn trosglwyddo i ni unrhyw hawliau mewn unrhyw eiddo deallusol a grëwyd gennych o ganlyniad i'r Dibenion hyn.

(b) Rhaid i chi gydnabod ein cefnogaeth mewn perthynas â'r Dibenion. Rhaid i'r cyfryw gydnabyddiaeth(au) fod ar ffurf a gymeradwyir gennym ni, a rhaid iddi gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru.

(c) Rhaid i chi roi manylion yr holl gydnabyddiaethau y cyfeirir atynt yn Amod 13(b) i'r Swyddog Llywodraeth Cymru i gael eu cymeradwyo gennym cyn y bydd unrhyw gydnabyddiaethau o'r fath yn cael eu defnyddio, ac ni chewch ddefnyddio cydnabyddiaethau o'r fath heb ein cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw. Byddwn yn ymdrechu i ymateb i bob cais ysgrifenedig am gymeradwyaeth cyn pen 10 Diwrnod Busnes.

(d) Rydych yn cytuno, o ddyddiad y llythyr hwn tan 5 mlynedd o ddyddiad taliad olaf y Cyllid, y gallwn gynnwys manylion am eich sefydliad a'ch busnes, y Cyllid a'r Dibenion mewn deunyddiau hyrwyddo Llywodraeth Cymru ac rydych yn cytuno ymhellach i gydweithredu â'n ceisiadau rhesymol at y diben o baratoi deunyddiau o'r fath.

(e) Mae'n rhaid i'r Cynllun Rheoli Data Amlinellol roi manylion eich cynigion ar gyfer sut y bydd yr Ymchwil yn cael ei rheoli a'i darparu i'r cyhoedd a rhaid ei gwblhau a'i gytuno â Swyddog Llywodraeth Cymru cyn ymgymryd ag unrhyw Ymchwil.

(f) Rydych yn cytuno i rannu gyda ni bob Ymchwil, papur, cofnodion, data neu gasgliadau heb eu cyhoeddi sy'n deillio o'r gwaith a wnaed mewn perthynas â'r Dibenion hyn.

(g) Rhaid i chi sicrhau'r holl hawliau angenrheidiol i'ch galluogi i (i) rhannu'r ymchwil gyda ni (i gynnwys yr holl Ymchwil, papurau, cofnodion, data neu gasgliadau heb eu cyhoeddi sy'n deillio o'r gwaith a wnaed mewn perthynas â'r Dibenion hyn) a (ii) cyhoeddi'r Ymchwil i'r cyhoedd.

(h) Byddwch yn rhoi i Weinidogion Cymru (neu, yn achos eiddo deallusol sy'n perthyn i drydydd partïon, yn caffael) drwydded barhaus, ddi-droi'n-ôl, heb freindal, anghyfyngedig i Weinidogion Cymru i gopïo, addasu, dosbarthu, cyfathrebu a rhoi ar gael unrhyw

neu’r cyfan o'r deunyddiau sy'n ffurfio rhan o'r Ymchwil, Ymchwil, papurau, cofnodion, data neu gasgliadau nas cyhoeddwyd, sy'n deillio o'r gwaith a wnaed mewn perthynas â'r Dibenion (gan gynnwys heb gyfyngiad yr hawl i Weinidogion Cymru i roi is-drwyddedau mewn perthynas â'r rhain) at bob diben yr ystyrir sy’n rhesymol gan y llythyr hwn, mewn cysylltiad â’r llythyr hwn neu'n atodol iddo ac er mwyn cyflawni'r nodau a amlinellir yn y Cynllun Rheoli Data Amlinellol.

(i) Rydych yn ymrwymo i wneud pob gweithred o'r fath a gweithredu'r holl ddogfennau o'r fath (a chaffael yr un fath gan unrhyw drydydd parti perthnasol) ag sy'n ofynnol (i) i rannu'r Ymchwil gyda ni (i gynnwys yr holl Ymchwil, papurau, cofnodion, data neu gasgliadau nas cyhoeddwyd sy'n deillio o'r gwaith a wnaed mewn perthynas â'r Dibenion hyn) yn unol â thelerau'r llythyr hwn a (ii) i sicrhau neu gwblhau cyhoeddi'r Ymchwil i'r cyhoedd yn unol â'r Cynllun Rheoli Data Amlinellol.

**14. Gwybodaeth**

(a) Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (“Rheoliadau 2004”), Deddf Diogelu data 2018 a'r fersiwn o gyfraith Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE a gadwyd (Rheoliad (EU) 2016/679) (“GDPR y DU”).

(b) Rydych yn cydnabod ein bod yn gyfrifol am benderfynu yn ein disgresiwn absoliwt:

i) a ddylid datgelu unrhyw wybodaeth yr ydym wedi'i chael o dan neu mewn cysylltiad â'r Cyllid i'r graddau y mae'n ofynnol i ni ddatgelu gwybodaeth o'r fath i berson sy'n gwneud cais am ddatgeliad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu Reoliadau 2004; a/neu
ii) bod unrhyw wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu Reoliadau 2004.

(c) Rydych yn cydnabod y gallwn rannu unrhyw ddata y byddwch yn ei ddarparu i ni gydag asiantaethau atal twyll a thrydydd partïon at ddibenion atal a chanfod twyll. Bydd unrhyw ddata personol a gasglwn yn cael ei reoli yn unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael i'w weld yma Hysbysiad preifatrwydd: Grantiau_Llywodraeth_Cymru

(d) Cyfeiriwch at Atodlen 7 sy'n rhoi manylion eich rhwymedigaethau mewn perthynas â GDPR y DU.

**15. Prynu nwyddau a gwasanaethau**

(a) Os byddwch yn penderfynu prynu unrhyw nwyddau a/neu unrhyw wasanaethau i gyflawni'r Dibenion hyn, rhaid eu prynu mewn ffordd

gystadleuol a chynaliadwy er mwyn dangos eich bod wedi (i) sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus, a (ii) cydymffurfio â'ch polisi gwrthdaro buddiannau ar yr adeg berthnasol.

(b) Efallai y byddwn o bryd i'w gilydd yn gofyn am dystiolaeth gennych i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r Amod 15 hwn. Gall tystiolaeth o'r fath fod ar ffurf tystiolaeth o'r canlynol:

i) cydymffurfiaeth ag unrhyw reoliadau, deddfwriaeth neu ganllawiau caffael sydd ar waith o bryd i'w gilydd yr ydych chi, neu unrhyw berson sy'n ymgymryd â busnes neu swyddogaeth o'r un natur neu o natur debyg i chi, yn ddarostyngedig iddynt; neu
ii) cydymffurfio â'ch polisi caffael sydd ar waith ar yr adeg berthnasol; neu
iii) cael o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer y nwyddau a/neu'r gwasanaethau perthnasol.

Mae'n rhaid i chi ddarparu'r fath dystiolaeth i ni yn brydlon yn dilyn cais ysgrifenedig gennym am dystiolaeth o'r fath.

## 16. Hysbysu

(a) Pan fo angen rhoi hysbysiad o dan yr Amodau rhaid iddo fod yn ysgrifenedig (nid yw hyn yn cynnwys e-bost ond gall gynnwys copi PDF o lythyr sydd ynghlwm wrth e-bost) a rhaid iddo arddangos y pennawd canlynol yn amlwg:

***"Hysbysiad mewn perthynas â'r Her Môr-lynnoedd Llanw".***

(b) Mae'r cyfeiriad a'r manylion cyswllt at ddibenion cyflwyno hysbysiad o dan yr Amodau fel a ganlyn

Chi: y Rheolwr Prosiect yn y cyfeiriad a nodir yn Amod 3.

Ni: Swyddog Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a nodir yn Amod 3.

(c) Ystyrir bod hysbysiad wedi'i roi'n briodol fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Post dosbarth cyntaf rhagdaledig: | ar yr ail Ddiwrnod Busnes ar ôl y dyddiad postio. |
| Â llaw: | ar ôl ei gyflwyno i'r cyfeiriad neu'r Diwrnod Busnes nesaf os bydd ar ôl 4pm neu ar benwythnos neu ar wyliau cyhoeddus. |
| Drwy atodiad e-bost: | ar ôl ei anfon neu'r Diwrnod Busnes nesaf os yw ar ôl 4pm neu ar benwythnos neu ar ddiwrnod gŵyl gyhoeddus. |

## 17. Cydraddoldeb

Mae'n rhaid i chi fod â pholisïau cydraddoldeb ar waith sy'n ymwneud â chyflogaeth, defnyddio gwirfoddolwyr a darparu gwasanaethau, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 18. Y Gymraeg

a) Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ac mae Cymraeg 2050: Strategaeth miliwn o siaradwyr Cymraeg (Cymraeg 2050) yn darparu gweledigaeth ar gyfer twf a datblygiad pellach y Gymraeg.
b) Pan fo'r Dibenion yn cynnwys neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau yng Nghymru, rhaid eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg oni bai y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i wneud hynny. Mae'n rhaid eu darparu yn y fath fodd fel nad ydych yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
c) Pan fo darpariaeth gwasanaethau yn rhan o'r Dibenion hyn, rhaid i chi weithredu yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a nodau Cymraeg 2050. Yn ymarferol, bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

    i) Sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchir, gan gynnwys deunydd digidol, yn ddwyieithog.
    ii) Sicrhau bod unrhyw arwyddion yn ddwyieithog.
    iii) Sicrhau bod unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.
    iv) Hybu a hwyluso'r Gymraeg (gan gynnwys darparu gwasanaethau a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg) o fewn gweithgareddau a ariennir.

d) I gael cyngor cyffredinol ar ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog ac am wybodaeth am ba sefydliadau sy'n gallu eich cefnogi, cysylltwch â'r gwasanaeth cyngor Cymraeg "Helo Blod" ar 03000 258888 neu e-bostiwch heloblod@llyw.cymru gyda'ch ymholiad.

## 19. Datblygu cynaliadwy

Mae'n rhaid i'ch defnydd o'r Cyllid gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Rhaid i chi weithio mewn ffordd gynaliadwy (egwyddor datblygu cynaliadwy) i gyflawni'r Dibenion er mwyn sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd ataliol, integredig, hirdymor a chydweithredol sy'n cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru. Gweler Atodlen 1 am ragor o wybodaeth.

## 20. Swyddogaethau Gweinidogion Cymru

Yr ydych yn cydnabod bod gan Weinidogion Cymru ystod o swyddogaethau a fydd yn parhau i gronni a chael eu diwygio a bod rheidrwydd i wneud penderfyniadau mewn perthynas â phob swyddogaeth o'r fath yng ngoleuni'r holl ystyriaethau perthnasol a chan eithrio pob ystyriaeth amherthnasol. Rydych yn cytuno na fydd unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys neu ei awgrymu yn yr Amodau, neu sy'n codi odanynt neu mewn cysylltiad â hwy, yn rhagfarnu, yn llyffetheirio neu'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu unrhyw un neu agor ohonynt nac yn gorfodi Gweinidogion Cymru neu unrhyw un neu ragor ohonynt i arfer, neu ymatal rhag arfer, unrhyw rai o'u swyddogaethau mewn unrhyw ffordd benodol.

## 21. Cyffredinol

(a) Os tybir, ar unrhyw adeg, bod unrhyw rai o'r Amodau'n annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy mewn unrhyw ffordd o dan unrhyw gyfraith, ni fydd unrhyw effaith ar ddilysrwydd a chyfreithlondeb y darpariaethau sy'n weddill na'r gallu i'w gorfodi mewn unrhyw fodd.

(b) Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi ar ein rhan i arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi o dan yr Amodau yn gweithredu fel ildiad o unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi o'r fath nac yn atal ei ymarfer ymhellach neu arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi arall. Mae'r pwerau, yr hawliau neu'r rhwymedïau a ddarperir drwy hyn yn gronnol ac nid ydynt yn gyfyngedig i unrhyw bwerau, hawliau neu rwymedïau a ddarperir gan y gyfraith.

(c) Rhaid i unrhyw ddiwygiad neu amrywiad i'r Amodau fod yn ysgrifenedig a'u llofnodi gennym ni a chi yn yr un modd â'r llythyr hwn (neu fel y cytunir fel arall gennym yn ysgrifenedig o bryd i'w gilydd).

(d) Ni chewch aseinio, na gwaredu mewn unrhyw ffordd arall, eich hawliau, eich buddion, eich rhwymedigaethau na'ch dyletswyddau o dan yr Amodau.

(e) Bydd Amodau 7, 9, 11, 13, 14, a 21(e) ac unrhyw Amodau eraill y mae angen iddynt, trwy oblygiad, barhau mewn grym y tu hwnt i daliad olaf y Cyllid yn parhau felly mewn grym a chydag effaith lawn.

(f) Mae'r Cyllid yn cael ei ddyfarnu i chi yn unig ac nid oes hawl gan unrhyw un arall i wneud unrhyw hawliad mewn perthynas â'r Cyllid neu i geisio dibynnu ar unrhyw un o'r Amodau neu eu gorfodi.

(g) Mewn amgylchiadau lle'r ydych yn cynnwys dau neu ragor o bersonau neu gyrff, bydd rhwymedigaethau personau neu gyrff o'r

fath yn gydgysylltiedig ac yn unigol, a bernir bod diffyg un o bersonau neu gyrff o'r fath yn ddiffyg gan bawb.

(h) Mae’r Amodau ac unrhyw anghydfodau neu hawliadau (gan gynnwys unrhyw anghydfodau neu hawliadau anghytundebol) sy’n deillio o’i ffurfio neu mewn cysylltiad ag ef neu ei gynnwys i’w llywodraethu a’u dehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr fel y’u cymhwysir yng Nghymru ac mae'r partïon trwy hyn yn ymostwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

## 22. Sut i dderbyn y dyfarniad hwn o Gyllid

(a) I dderbyn y dyfarniad Cyllid hwn, rhaid i chi lofnodi a dychwelyd copi o'r llythyr hwn at Swyddog Llywodraeth Cymru. Ni fydd unrhyw Gyllid yn cael ei dalu i chi hyd nes y byddwn wedi derbyn eich llythyr wedi'i lofnodi a'r Datganiad Sicrwydd wedi'i gwblhau.

(b) Rhaid i ni dderbyn eich llythyr wedi'i lofnodi o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y llythyr hwn, neu bydd y dyfarniad Cyllid hwn yn cael ei dynnu'n ôl yn awtomatig.

Yn gywir

Llofnodwyd gan:
Enw mewn priflythrennau:
Teitl Swydd:
Adran:
o dan awdurdod y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

**ATODLEN 1**
**Y Dibenion**

Diben y Cyllid yw cefnogi gwaith ymchwil i'r rhwystrau a/neu meintioli’r manteision o ran datblygu morlynnoedd llanw yng Nghymru [Rhagor o fanylion i'w cadarnhau cyn dyfarnu cyllid]

| **Cost** | **Gwerth (£)** |
|---|---|
| | |
| | |

# ATODLEN 2
# Y Targedau

## TABL ENGHREIFFTIOL

| **Disgrifiad o'r Targed** | **Dyddiad y dylid ei gyflawni erbyn?** | **Tystiolaeth sydd ei hangen** |
|---|---|---|
| [manylion i'w cadarnhau cyn dyfarnu cyllid] | | |
| | | |
| | | |

**ATODLEN 3**
**Digwyddiadau Hysbysu**

Mae'r Digwyddiadau Hysbysu y cyfeirir atynt yn Amod 9 wedi'u rhestru isod:

1. ii bod yn ofynnol ad-dalu unrhyw ran o'r Cyllid yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol;

2. eich bod yn methu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'r Amodau;

3. nad yw'r Cyllid, yn llawn neu'n rhannol, yn cael ei ddefnyddio at y Dibenion;

4. eich bod yn methu â chyrraedd unrhyw un neu bob un o'r Targedau;

5. bod cynnydd anfoddhaol tuag at gwblhau'r Dibenion, gan gynnwys cyrraedd y Targedau;

6. eich bod yn methu â darparu gwybodaeth am y Dibenion yr ydym ni neu unrhyw gorff gorfodi cymorthdaliadau yn y DU neu unrhyw un neu ragor o'i archwilwyr, asiantau neu gynrychiolwyr, yn gofyn amdani;

7. bod gennym reswm i gredu eich bod chi a/neu unrhyw un neu ragor o'ch Personél yn ymwneud â gweithgarwch twyllodrus neu wedi bod yn rhan o weithgaredd twyllodrus p'un a yw'n ymwneud â'r Cyllid neu'n gysylltiedig ag ef mewn unrhyw ffordd ai peidio;

8. ein bod wedi gordalu Cyllid i chi;

9. bod cyllid wedi'i ddyblygu mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r Dibenion. Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, unrhyw daliadau yr ydych wedi'u cael mewn perthynas ag effeithiau lledaeniad y Coronafeirws (COVID-19) gan eich darparwr yswiriant (yswiriant canslo/tarfu ar fusnes), Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU a/neu unrhyw gronfa/cynllun gan Lywodraeth Cymru;

10. bod unrhyw ddatganiad a wnaed yn Amod 8 yn anghyflawn, yn anwir neu'n gamarweiniol, yn anghywir mewn unrhyw ffordd, neu y profir ei fod felly, neu, o'i ailadrodd ar unrhyw adeg gan gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau a oedd yn bodoli bryd hynny, y byddai'n anghywir;

11. bod addasiad i farn yr archwilydd (sy'n golygu bod y farn honno yn un amodol, yn anffafriol neu dan ymwadiad) am eich datganiadau ariannol;

12. bod digwyddiad neu amgylchiad wedi codi ac yn gyfredol sy'n gyfystyr â (neu a fyddai, gyda therfyn ar gyfnod gras, rhoi hysbysiad, gwneud unrhyw benderfyniad neu unrhyw gyfuniad o'r pethau hynny, yn gyfystyr â) digwyddiad diffygdalu neu derfynu (sut bynnag y'i disgrifir) o dan unrhyw gytundeb neu offeryn arall sy'n eich rhwymo neu y mae unrhyw un neu ragor o'ch asedau yn ddarostyngedig iddo;

13. bod moratoriwm mewn perthynas â’r cyfan neu unrhyw un o'ch dyledion neu’ch asedau neu fod compównd neu gytundeb gyda'ch credydwyr wedi’i gytuno, ei orchymyn neu’i ddatgan;

14. eich bod yn atal neu'n gohirio talu unrhyw ddyledion neu nad ydych yn gallu talu’ch dyledion, neu eich bod yn cyfaddef yn ysgrifenedig nad ydych yn gallu talu eich dyledion;

15. bod gwerth eich asedau yn llai na'ch rhwymedigaethau (gan ystyried rhwymedigaethau digwyddiadol a darpar rwymedigaethau);

16. eich bod yn dechrau negodiadau, neu'n ymgymryd ag unrhyw gompównd, cytundeb cyfaddawdol, aseiniad neu drefniant, gydag un neu ragor o'ch credydwyr gyda golwg ar ad-drefnu unrhyw un neu ragor o'ch dyledion (oherwydd anawsterau ariannol gwirioneddol neu ddisgwyliedig).

17. bod unrhyw gamau, achos, gweithdrefn neu gam yn cael eu cymryd mewn perthynas â chi ynghylch:

    (a) gohirio taliadau, moratoriwm mewn perthynas ag unrhyw ddyled, dirwyn i ben, diddymu, mynd i ddwylo gweinyddwyr neu ad-drefnu (gan ddefnyddio trefniant gwirfoddol, cynllun trefniant neu fel arall); neu

    (b) compównd, cyfaddawd, aseiniad neu drefniant gydag unrhyw un neu ragor o'ch credydwyr; neu

    (c) penodi diddymwr, derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, gweinyddwr, rheolwr gorfodol neu swyddog tebyg arall mewn perthynas â chi neu unrhyw un neu ragor o'ch asedau.

18. bod archeb statudol yn cael ei rhoi yn eich erbyn;

19. eich bod yn rhoi'r gorau, neu'n bygwth gohirio neu roi'r gorau, i gynnal y cyfan neu ran berthnasol o'ch busnes;

20. bod newid yn eich cyfansoddiad, eich statws, eich rheolaeth neu’ch perchenogaeth a/neu fod eich archwilwyr allanol yn ymddiswyddo;

21. eich bod yn methu â chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau adrodd statudol sy'n berthnasol i chi (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ofynion ffeilio ar gyfer Tŷ'r Cwmnïau, y Comisiwn Elusennau, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol);

22. bod unrhyw newid, boed yn barhaol neu dros dro, yn eich cyfranddalwyr, eich cyfarwyddwyr, eich ymddiriedolwyr neu’ch partneriaid a/neu Bersonél a all effeithio ar eich gallu i gyflawni'r Dibenion;

23. bod unrhyw ddigwyddiad neu unrhyw amgylchiadau'n codi sydd, yn ein barn ni, yn rhoi sail resymol dros gredu y gallai darparu'r Cyllid a/neu barhad y trefniadau a ystyrir gan y llythyr hwn ddwyn anfri arnom;

24. bod unrhyw ddigwyddiad neu unrhyw amgylchiadau'n codi sydd, yn ein barn ni, yn rhoi sail resymol dros gredu na fyddwch yn cyflawni neu'n cydymffurfio ag unrhyw un o'ch rhwymedigaethau o dan yr Amodau neu na fyddwch yn gallu gwneud hynny.

## ATODLEN 4
## Proffil Talu Dangosol
## (mae'n cyfeirio at Amodau 5(b), 6(a) a (b))

## TABL ENGHREIFFTIOL

| **Rhif rhandaliad** | **Uchafswm y rhandaliad** | **Y dyddiad cynharaf ar gyfer hawlio** | **Y dyddiad olaf ar gyfer hawlio** | **Dogfennau y mae'n rhaid iddynt gyd-fynd â hawliad pro-forma** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | [I'W GADARNHAU] | | | Adroddiad cynnydd |
| 2 | [I'W GADARNHAU] | | | Adroddiad cynnydd |
| Rhandaliad terfynol | [I'W GADARNHAU] | Dyddiad cyhoeddi Ymchwil | [I'W GADARNHAU] | Tystiolaeth o gyhoeddi Ymchwil |
| | | | | |
| | | | | |

**ATODLEN 5**
**Tystysgrif Archwilio**
**[i'w chadarnhau]**

## ATODLEN 6

### Datganiad Sicrwydd: Atal twyll a Llywodraethu

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus, gan sicrhau ei fod yn cael ei drin â gonestrwydd ac er budd y cyhoedd. Mae'n bwysig bod pobl Cymru yn gallu ymddiried yn Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau y mae'n eu hariannu. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gofyn am sicrwydd bod gweithdrefnau llywodraethu a gwrth-dwyll rhesymol a digonol yn bodoli yn y sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| A ydych yn derbyn unrhyw gyllid arall gan unrhyw sefydliad arall i gefnogi'r Dibenion? Os felly, rhowch fanylion gan gynnwys symiau cyllid arall, swyddi a ariennir a ffynhonnell y cyllid. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau sydd heb eu penderfynu eto. | Ydym Nac ydym<br><br>Gellir darparu manylion pellach yn y tabl isod |
| Enwch y personél yn eich sefydliad sydd â chyfrifoldeb penodol am faterion rheoli ariannol mewn perthynas â'r Dibenion. | Enw:<br><br>Swydd: |
| Pwy sy'n gyfrifol am oruchwylio'r personél a enwir uchod? | Enw:<br><br>Swydd: |

Rydych yn datgan bod eich gweithwyr, eich swyddogion, eich cyfarwyddwyr, eich ymddiriedolwyr ac aelodau'ch bwrdd:

- lle y bo'n gymwys, yn deall yn llawn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â chwmnïau ac elusennau;
- yn meddu ar ddigon o wybodaeth am faterion llywodraethu i gyflawni eu swyddogaethau mewn modd sy'n cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- yn craffu'n briodol ar waith y rhai sy'n bennaf gyfrifol am eich gwaith rheoli ariannol ac yn goruchwylio'r gwaith hwnnw'n briodol.

Rhowch fanylion **unrhyw gyllid arall**, yn gyllid cyfalaf ac yn gyllid refeniw, (gan gynnwys ffrydiau ariannu eraill Llywodraeth Cymru) gan unrhyw sefydliad i gefnogi'r Dibenion fel y'u nodir yn Atodlen 1. Mae'n rhaid i chi gynnwys manylion am eitemau cyfalaf, swyddi a ariennir, symiau cyllid arall a ffynhonnell y cyllid. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau heb eu penderfynu eto.

| **Math o Gyllid a Diben** | **Swm y cyllid a gafwyd (gan gynnwys ceisiadau heb eu penderfynu) £** | **% o gost swydd/eitem cyfalaf** | **Ffynhonnell y cyllid** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## ATODLEN 7

### Gofynion GDPR y Deyrnas Unedig

### Rhan 1

| Disgrifiad | Manylion |
|---|---|
| **Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu** | Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw adran 6(1)(e) o Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus i'ch adnabod a phrosesu eich cais. |
| **Testun y Prosesu** | [I'W GADARNHAU] |
| **Hyd y prosesu** | [I'W GADARNHAU] |
| **Lleoliad y Prosesu** | Rhaid prosesu'r data yn y Deyrnas Unedig ac ni ddylid ei drosglwyddo y tu allan i'r DU oni bai ei fod yn unol ag Amod 2.6.6. |
| **Natur y Prosesu** | [I'W GADARNHAU] |
| **Dibenion y Prosesu** | [I'W GADARNHAU] |
| **Math o ddata personol i'w brosesu** | [I'W GADARNHAU] |
| **Categorïau Gwrthrychau Data** | [I'W GADARNHAU] |
| **Cynllunio ar gyfer dychwelyd a / neu ddinistrio'r data unwaith y bydd y prosesu wedi'i gwblhau oni bai ei bod yn ofynnol o dan y gyfraith i gadw'r math hwnnw o ddata** | [I'W GADARNHAU] |

### Rhan 2

1. Bydd y diffiniadau a nodir isod ar gyfer y telerau canlynol yn cael eu defnyddio yn yr Atodlen GDPR hon:

| | |
|---|---|
| Digwyddiad Diogelwch Data | unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain neu a allai arwain at fynediad heb ei awdurdodi at Ddata Personol a gedwir gennych o dan y Dyfarniad Cyllid, a/neu achos gwirioneddol neu bosibl o golli a/neu ddinistrio Data Personol yn groes i'r Dyfarniad Cyllid hwn, gan gynnwys unrhyw dor-data personol (fel y'i diffinnir yn GDPR y DU); |
| Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu | asesiad gan y Rheolydd o effaith y Prosesu a ragwelir |

| | |
|---|---|
| Data | ar ddiogelu Data Personol; |
| Deddfwriaeth Diogelu Data | yr holl ddeddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd perthnasol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU, gan gynnwys heb gyfyngiad GDPR y DU; Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) (a'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf); Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 (OS 2003/2426) fel y'u diwygiwyd; a'r canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd ac sy'n gymwys i barti; |
| Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun | Cais a wneir gan neu ar ran Testun Data yn unol â'r hawliau a roddir yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data i gael mynediad at eu Data Personol; |
| DPA 2018 | Deddf Diogelu Data 2018; |
| GDPR y DU | Rheoliad (EU) 2016/679 Senedd Ewrop a Chyngor 27 Ebrill 2016 ar ddiogelu bodau dynol o ran prosesu data personol ac ar symudiad rhydd data o'r fath (Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig), fel y mae'n rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhinwedd adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018; |
| Y Gyfraith | (a) unrhyw statud neu gyhoeddiad cymwys neu unrhyw ddeddfwriaeth ddirprwyedig neu is-ddeddfwriaeth;<br><br>(b) unrhyw ganllawiau, unrhyw god ymarfer, unrhyw gyfarwyddyd neu unrhyw benderfyniad perthnasol y mae'n rhaid i ni a/neu chi gydymffurfio â nhw i'r graddau bod y rhain yn cael eu cyhoeddi ac ar gael i'r cyhoedd neu ein bod wedi eich hysbysu am fodolaeth y rhain neu eu cynnwys; ac<br><br>(c) unrhyw ddyfarniad neu orchymyn cymwys llys barn perthnasol sy'n gynsail rhwymol yng Nghymru a Lloegr,<br><br>ym mhob achos sydd mewn grym neu'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, neu yng Nghymru yn unig; |
| Parti | ni neu chi; gyda'n gilydd **'y Partïon'**; |
| Mesurau Amddiffyn | mesurau technegol a sefydliadol priodol a all gynnwys gosod ffugenw ac amgryptio Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a chydnerthedd systemau a gwasanaethau, sicrhau y gellir adfer argaeledd Data Personol a mynediad ato mewn modd amserol ar ôl digwyddiad ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau a fabwysiadwyd ganddo yn rheolaidd; |

| | |
|---|---|
| Is-brosesydd | unrhyw drydydd parti a benodir i Brosesu Data Personol ar eich rhan mewn perthynas â'r Dyfarniad Cyllid; |
| Diwrnodau Busnes | diwrnodau heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971. |

**2. DIOGELU DATA PERSONOL**

2.1 Yn yr Atodlen GDPR y DU hon bydd gan y telerau canlynol yr ystyr a roddir iddynt yn GDPR y DU: **Rheolydd, Prosesydd, Testun Data, Data Personol, Proses, Tor-data Personol, Swyddog Diogelu Data**.

2.2 Mae'r Partïon yn cydnabod mai ni yw'r Rheolydd a chi yw'r Prosesydd at ddibenion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

2.3 Oni bai ei bod yn ofynnol i chi wneud hynny fel arall yn ôl y Gyfraith (ac os felly, byddwch yn ein hysbysu am y gofyniad cyfreithiol hwnnw cyn Prosesu, oni bai bod y gyfraith yn gwahardd gwybodaeth o'r fath ar sail bwysig budd y cyhoedd), disgrifir yr unig Brosesu Data Personol yr ydych wedi'i awdurdodi i'w wneud yn yr Atodlen GDPR y DU hon neu mae'n destun cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gennym ni ac ni chaiff ei benderfynu gennych chi. Ni fyddwch yn prosesu'r Data Personol at unrhyw ddiben arall nac mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r Dyfarniad Cyllid hwn na'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rhaid i chi gydymffurfio yn brydlon â'n cyfarwyddiadau ysgrifenedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi addasu, trosglwyddo, dileu neu brosesu fel arall y Data Personol, neu i atal, lliniaru neu gywiro unrhyw brosesu anawdurdodedig.

2.4 Rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith os ydych yn ystyried bod unrhyw un o'n cyfarwyddiadau yn torri deddfwriaeth diogelu data.

2.5 Rhaid i chi ddarparu'r holl gymorth rhesymol i ni mewn unrhyw Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data parhaus cyn ac ar ôl dechrau unrhyw Brosesu. Gall y cymorth hwn, yn ôl ein disgresiwn, gynnwys:

2.5.1 disgrifiad systematig o'r gweithrediadau Prosesu a ragwelir a phwrpas y Prosesu;

2.5.2 asesiad o angenrheidrwydd a chymesuredd y gweithrediadau prosesu mewn perthynas â'r Dibenion hyn;

2.5.3 asesiad o'r risgiau i hawliau a rhyddid Testunau Data; a

2.5.4 disgrifiad systematig o'r mesurau a ragwelir i fynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys mesurau diogelu, mesurau diogelwch a mecanweithiau i sicrhau bod Data Personol yn cael ei ddiogelu.

2.6 Rhaid i chi, mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a Brosesir mewn cysylltiad â'ch rhwymedigaethau o dan y Dyfarniad Cyllid:

2.6.1 brosesu'r Data Personol hwnnw yn unol ag Amod 2.3 o'r Atodlen GDPR y DU hon yn unig, oni bai ei bod yn ofynnol i chi wneud fel arall yn ôl y Gyfraith. Os oes angen i chi wneud hynny, rhaid i chi roi gwybod i ni yn brydlon cyn Prosesu'r Data Personol oni bai ei fod wedi'i wahardd gan y Gyfraith;

2.6.2 sicrhau bod gennych Fesurau Diogelu ar waith, sydd wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gennym ni fel y bo'n briodol, i ddiogelu rhag Digwyddiad Diogelwch Data ar ôl ystyried y canlynol:

(i) natur y data sydd i'w ddiogelu;
(ii) niwed a allai ddeillio o Ddigwyddiad Diogelwch Data;
(iii) cyflwr y datblygiad technolegol; a
(iv) costau gweithredu unrhyw fesurau;

2.6.3 rhaid i chi, lle mae'n ofynnol i chi o dan y Dyfarniad Cyllid, hysbysu Testunau Data am bwrpas a manylion y Prosesu sydd i'w wneud, gydweithredu â ni i gytuno ar hysbysiad priodol sy'n cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Mae'n rhaid i'r hysbysiad gael ein cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw. Rhaid i chi beidio ag addasu neu newid yr hysbysiad mewn unrhyw ffordd heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw;

2.6.4 sicrhau nad yw eich Personél yn Prosesu Data Personol ac eithrio yn unol â'r Dyfarniad Cyllid;

2.6.5 sicrhau eich bod yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau dibynadwyedd a chywirdeb unrhyw un neu ragor o'ch Personél sydd â mynediad at y Data Personol a sicrhau eu bod:

(i) yn ymwybodol o'ch rhwymedigaethau o dan yr Amodau ac yn cydymffurfio â nhw;
(ii) yn ddarostyngedig i ymgymeriadau cyfrinachedd priodol gyda chi neu unrhyw Is-brosesydd;
(iii) yn cael eu hysbysu am natur gyfrinachol y Data Personol ac na fyddant yn cyhoeddi na datgelu unrhyw ran o'r Data Personol i unrhyw drydydd parti oni bai y rhoddir cyfarwyddyd ysgrifenedig gennym ni iddynt wneud hynny neu fel y caniateir fel arall gan y Dyfarniad Cyllid; a'u bod
(iv) wedi cael hyfforddiant digonol wrth ddefnyddio, gofalu am, diogelu a thrin Data Personol;

2.6.6 peidio â throsglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU oni bai ein bod wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw neu fod Erthygl 28(3)(a) GDPR y DU yn berthnasol.

2.6.7 Yn unol â'n cyfarwyddyd ysgrifenedig, dileu neu ddychwelyd Data Personol (ac unrhyw gopïau ohono) i ni pan ddaw'r Dyfarniad Cyllid i ben oni bai ei bod yn ofynnol i chi gadw'r Data Personol yn ôl y Gyfraith.

2.7 Yn amodol ar Amod 2.8, rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith os ydych mewn cysylltiad â'r Dyfarniad Cyllid:

2.7.1 yn derbyn Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (neu Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun honedig);

2.7.2 yn derbyn cais i gywiro, rhwystro prosesu neu ddileu unrhyw Ddata Personol;

2.7.3 yn derbyn unrhyw gais, cwyn neu gyfathrebiad arall sy'n ymwneud â rhwymedigaethau'r naill Barti neu'r llall o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

2.7.4 yn derbyn unrhyw ohebiaeth gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod rheoleiddio arall mewn cysylltiad â Data Personol a Brosesir o dan y Dyfarniad Cyllid;

2.7.5 yn derbyn cais gan unrhyw drydydd parti i ddatgelu Data Personol pan fo cydymffurfio â chais o'r fath yn ofynnol neu yr honnir ei bod yn ofynnol yn ôl y Gyfraith; neu'n

2.7.6 dod yn ymwybodol o Ddigwyddiad Diogelwch Data.

2.8 Mae eich rhwymedigaeth i hysbysu o dan Amod 2.7 o'r Atodlen GDPR y DU hon yn cynnwys darparu gwybodaeth bellach i ni fesul cam heb oedi gormodol wrth i'r manylion ddod ar gael.

2.9 Gan ystyried natur y Prosesu, rhaid i chi roi cymorth llawn i ni mewn perthynas â rhwymedigaethau'r naill Barti neu'r llall o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac unrhyw gŵyn, cyfathrebu neu gais a wneir o dan Amod 2.7 o'r Atodlen GDPR y DU hon (ac i'r graddau y bo modd o fewn yr amserlenni sy'n ofynnol yn rhesymol gennym ni) gan gynnwys drwy roi i ni yn brydlon:

2.9.1 manylion llawn a chopïau o'r gŵyn, y cyfathrebu neu'r cais;

2.9.2 unrhyw gymorth y gallwn ofyn amdano yn rhesymol i'n galluogi i gydymffurfio â Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y

Testun o fewn yr amserlenni perthnasol a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

2.9.3 ar ein cais, unrhyw Ddata Personol sydd gennych mewn perthynas â Thestun Data;

2.9.4 cymorth y gallwn ofyn yn rhesymol amdano yn dilyn unrhyw Ddigwyddiad Diogelwch Data;

2.9.5 cymorth y gallwn ofyn yn rhesymol amdano mewn perthynas ag unrhyw gais gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw ymgynghoriad gennym gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

2.10 Rhaid i chi gadw cofnodion a gwybodaeth gyflawn a chywir i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r Amod 2 hwn o'r Atodlen GDPR y DU hon. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol os ydych yn cyflogi llai na 250 o staff oni bai:

2.10.1 ein bod yn penderfynu nad yw'r Prosesu'n achlysurol; neu

2.10.2 ein bod yn penderfynu bod y Prosesu yn cynnwys categorïau arbennig o ddata fel y cyfeirir atynt yn Erthygl 9(1) o GDPR y DU neu Ddata Personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau y cyfeirir atynt yn Erthyglau 10 o GDPR y DU; neu

2.10.3 ein bod yn penderfynu bod y Prosesu yn debygol o arwain at risg i hawliau a rhyddid Gwrthrychau Data.

2.11 Rhaid i chi ganiatáu archwiliadau gennym ni neu ein harchwiliwr dynodedig o'ch gweithgareddau prosesu data.

2.12 Rhaid i chi ddynodi swyddog diogelu data os yw hynny'n ofynnol gan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

2.13 Cyn caniatáu i unrhyw Is-brosesydd Brosesu unrhyw Ddata Personol sy'n gysylltiedig â'r Dyfarniad Cyllid, rhaid i chi:

2.13.1 ein hysbysu'n ysgrifenedig am yr Is-brosesydd a'r Prosesu arfaethedig;

2.13.2 cael ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw;

2.13.2 ymrwymo i gytundeb ysgrifenedig gyda'r Is-brosesydd sy'n rhoi effaith i'r telerau a nodir yn Amod 2 yr Atodlen GDPR y DU hon fel y maent yn berthnasol i'r Is-brosesydd; a

2.13.3 rhoi'r fath wybodaeth i ni ynghylch yr Is-brosesydd ag y mae'n rhesymol i ni ofyn amdani.

2.14 Byddwch yn parhau i fod yn gwbl atebol am holl weithredoedd neu anweithredoedd unrhyw Is-brosesydd.

2.15 Gallwn ar unrhyw adeg gyda rhybudd o ddim llai na 30 Diwrnod Busnes adolygu'r Amod 2 hwn o'r Atodlen 6 GDPR y DU hon trwy ei ddisodli ag unrhyw gymalau safonol rheolydd i brosesydd cymwys neu delerau tebyg sy'n ffurfio rhan o gynllun ardystio cymwys (a fydd yn gymwys pan gaiff ei ymgorffori drwy ei atodi i'r Dyfarniad Cyllid).

2.16 Mae'r Partïon yn cytuno i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chanllawiau eraill lle bo'n berthnasol. Efallai y byddwn gyda rhybudd o ddim llai na 30 Diwrnod Busnes yn diwygio'r Dyfarniad Cyllid i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

2.17 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw beth yn y Dyfarniad Cyllid yn eich rhyddhau o'ch cyfrifoldebau a'ch rhwymedigaethau uniongyrchol eich hun o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

2.18 Rydych yn cytuno i'n hindemnio a'n cadw wedi ein hindemnio rhag pob hawliad ac achos a'r holl atebolrwydd, colled, costau a threuliau a dynnir mewn cysylltiad â nhw o ganlyniad i unrhyw hawliad sy'n cael ei wneud neu ei ddwyn gan unrhyw unigolyn neu berson cyfreithiol arall mewn perthynas ag unrhyw golled, unrhyw ddifrod neu unrhyw ofid a achoswyd i'r unigolyn hwnnw neu berson cyfreithiol arall o ganlyniad i brosesu heb awdurdod, prosesu anghyfreithlon, dinistrio a/neu ddifrod i unrhyw broses Data Personol gennych chi, eich cyflogeion neu eich asiantau wrth i chi weithredu eich Dyfarniad Cyllid neu fel y cytunwyd fel arall rhwng y Partïon.

2.19 Bydd darpariaethau'r Amod 2 hwn o'r Atodlen GDPR y DU hon yn gymwys yn ystod parhad y Dyfarniad Cyllid ac am gyfnod amhenodol ar ôl iddo ddod i ben.

## Atodlen 8

## Rheoli Cymorthdaliadau

## [i'w gadarnhau]

**MAE ANGEN DAU LOFNODWR**

Rydym yn datgan ein bod wedi ein hawdurdodi'n briodol i dderbyn y dyfarniad o Gyllid sy'n ymwneud â’r Her Môr-lynnoedd Llanw a'r Amodau sy'n ymwneud â'r Cyllid.

________________________________________ Llofnod
Llofnodwr awdurdodedig ***[Enw'r sawl sy'n Derbyn y Cyllid]***

________________________________________ Enw

________________________________________ Teitl swydd

________________________________________ Llofnod
Llofnodwr awdurdodedig ***[Enw'r sawl sy'n derbyn y Cyllid]***

________________________________________ Enw

________________________________________ Teitl swydd

**Dyddiad dod i rym: ……………………………………….**